Ymateb yr RPSGB i'r Mesur Arfaethiedig ar Wneud Iawn am Gamweddau'r GIG

Papur atodol

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (RPSGB) yw'r corff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer fferyllwyr yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Y mae hefyd yn rheoleiddio technegwyr fferyllol ar sail gwirfoddol, rôl y mae disgwyl iddo ddod yn statudol yn unol â deddfwriaeth newydd.

Roedd RPSGB yn falch o dderbyn gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ar y Mesur arfaethedig ar Wneud Iawn am Gamweddau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ac mae ein hymateb yn adlewyrchu effeithiau'r Mesur arfaethedig ar fferyllwyr sydd yn gweithio ar hyd y sectorau gofal iechyd ac mewn amrywiaeth o leoliadau gofal cynradd a gofal eilradd.

Mae'r RPSGB yn cefnogi egwyddorion gwaelodol y Mesur ac rydym o'r farn bod yr amcanion yn gyson â lles cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gennym nifer o sylwadau a phryderon ynglŷn â'r Mesur ac mae'r rhain wedi'u nodi y ein hymateb. Mae nifer o'r pryderon hyn yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng proses reoleiddio'r RPSGB a'r Mesur fel yr amlinellwyd ef.

Mae prif bwyntiau ymateb RPSGB fel a ganlyn:

- Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn cynnig y dylid eithrio contractwyr gofal cynradd o'r trefniadau. Dylai'r cynllun gwneud iawn gyfeirio at ofal eilradd yn unig ac ni ddylai sgôp y cynllun gael ei estyn heb werthusiad ofalus o'r modd y'i gweithredir yn y sector hwnnw'n gyntaf;
- Mae gofynion proffesiynol wedi'u gosod gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn golygu bod yswiriant digolledia yn hanfodol ar gyfer gweithio fel contractwr gofal cynradd. Mae hyn yn sicrhau i'r cyhoedd gamau addas ar gyfer gwneud iawn ar ôl niwed o ganlyniad i ddiagnosis, gofal neu driniaeth. Mae'r RPSGB yn argymell y dylid cynnal trafodaethau â'r prif yswirwyr fferyllol ynglŷn â'r mater hwn;
- Mae trefniadau yswiriant a'r drefn ar gyfer gwneud cwynion i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn rhoi esboniadau yn ogystal â gwneud iawn am gamweddau. Ar y cyd â threfniadau'r arolygiaeth, mae'r rhain yn darparu amddiffyniadau digonol yn y sector gofal cynradd, ac mae'r trefniadau presennol hyn yn gweithio'n dda;
- Os cyflwynir y cynllun ar gyfer contractwyr gofal cynradd, byddai taliadau yswiriant sydd yn cael eu talu ar hyn o bryd gan yr yswirwyr yn cael eu trosglwyddo i Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol Cymru. Fe allai hyn greu goblygiadau ariannol difrifol i wasanaethau'r GIG.

Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn ategu'i chefnogaeth i egwyddor y Mesur ond yn gofyn am weld trafod y pryderon hyn pan ymddengys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gerbron Pwyllgor Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yr wythnos hon.

Byddai'r RPSGB yn croesawu'r cyfle i chwarae rôl flaenllaw o ran helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau hyder y cyhoedd a system o wneud iawn am gamweddau ar yr un pryd â chynnal ei dyletswyddau fel rheolydd cyfrifol o'r proffesiwn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Chyfarwyddiaeth Cymru yr RPSGB ar wales@rpsgb.org neu 029 2073 0310